# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 29 Mehefin 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Siôn Ifans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, Aeron Pughe, Geraint Wigley, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan.
Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Croeso'r Cadeirydd:-** Rhoddodd y Cadeirydd, Cyng Dafydd Evans croeso cynnes i'r Cynghorwyr, yn enwedig Cyng Aeron Pughe yn ei gyfarfod cyntaf yn cynrychioli Ward Cemaes ar y Cyngor.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- William N Owen a Gwenfair E Rhys-Davies.

**17.37. Cofnodion cyfarfod 18 Mai 2017.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.38. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf ac eglurodd fod yna cyfle i gweld y cynlluniau i ardal Talywern ac Aberhosan yn Neuadd Aberhosan ar 10 Awst 2017.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Dim newid. Cytunwyd gofyn am diweddariad ar y sefyllfa.
17.29.2. Problemau gyda problemau ar gwaelod ffordd Cefn Coch, Glantwymyn. Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn rhagor o lluniau gan Cyng Paul Hughes a bod problemau yn parhau yn y safle yma. Cytunwyd cysylltu gyda swyddogion Cyngor Sir Powys unwaith eto.
17.36.4. Problemau gyda pobl yn byw ar safle cyferbyn a Lluest Wen. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod y Cyngor Sir yn disgwyl derbyn cais cynllunio am y safle yma cyn bo hir.

**17.39. Cynllunio.**
39.1. NMA/2017/0039. Cais i newid amodau caniatad codi sied yn y gardd ger Ty Capel, Cwm Ceirig, Llanwrin. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwneud dim sylwadau ar y cais yma.

**17.40. Eitemau i'w talu.**
40.1. Taliad i Un Llais Cymru am un lle ar cwrs hyfforddiant. Cytunwyd taliad o £40-00.
40.2. Taliad i Zurich Municipal am yswiriant. Cytunwyd taliad o £731-28.

**17.41. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
41.1. Llywodraethwyr. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod y ffederasiwn yn disgwyl newyddion ar y cais i ariannu cynllyn ddatblygu'r ysgolion o fewn y ffederasiwn. Ysgol Carno fydd yn cael y mwyafrif o'r arian ond mi fydd gwelliant i'r cyflysterau yng Nglantwymyn a Llanbrynmair hefyd.
41.2. Cyngor Sir Powys. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod pryderon wedi codi ynglyn y ffaith bod Cyngor Sir Powys wedi archebu modur newydd i Arweinydd y Cyngor. Ychwanegodd fod yn disgwyl gweld eitem am y sefyllfa yn y wasg cyn bo hir.

**17.42. Gohebiaeth.**
42.1. E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, ynglyn a chau'r ffordd C2082 heibio'r hen ysgol yng Nghemaes am cyfnod yn ystod Mis Hydref.
42.2. E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cau'r ffordd U4651 islaw yr hen siop yng Nghemaes am cyfnod yn ystod Mis Hydref.
42.3. E-bost gan Eleanor Jones gyda copi o chofnodion y Ffederasiwn Ysgolion.

42.4. E-bost gan Elizabeth Protheroe yn ymestyn gwahoddiad i ddau o'r Cynghorwyr i fynychu dderbyniad ar faes Sioe Frenhinol Cymru yn ystod Sioe 2017. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn derbyn y gwahoddiad ar rhan Cyng Gwen Lloyd ond hefyd yn gofyn am fanylion costau'r ddau dderbyniad i'r Cyngor Sir.
42.5. E-bost gan yr Athro Vivienne Westwood, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i fynychu Cyfarfod Blynyddol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
42.6. E-bost gan Russell George AC gyda newyddion Mis Mehefin 2017.

**17.43. Unrhyw fater arall.**
43.1. Perygl gyda coed yn gorchuddio'r groesffordd yng Nghomins Coch. Eglurodd Cyng Aeron Pughe fod y coed yn tyfi ar tir y rheilffordd yn gorchuddio'r groesffordd ym mhentref Comins Coch. Cytunwyd dod a'r mater yma at sylw cwmni Network Rail.
43.2. Problem gyda'r coed yn tyfi ar hyd ochr y rheilffordd ger Tai Glantwymyn. Eglurodd Cyng Gwyn Jones fod pryderon wedi codi ynglyn ag uchder y coed yn tyfi ar hyd ochr y rheilffordd ar hyd cefn Tai Glantwymyn. Cytunwyd dod a'r problem at sylw cwmni Network Rail.
43.3. Problem gyda cyflwr y porth mynediad i'r fynwent ger Eglwys Llanwrin. Eglurodd Cyng Gareth Owen fod yna pryderon gan trigolion am cyflwr porth y fynwent yn Llanwrin. Ychwanegodd y Clerc fod y Parch Kath Rodgers wedi codi'r sefyllfa gyda ef hefyd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cysylltu gyda'r Eglwys yng Nghymru am fwy o wybodaeth am y sefyllfa a'r cyfrifoldeb am y porth.
43.4. Problem gyda'r pwmp dwr wedi mynd ar goll ym mhentref Darowen. Eglurodd Cyng Iwan P Jones fod yr hen pwmp dwr ym mhentref Darowen wedi diflanu. Eglurodd y Clerc ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Heddlu am y sefyllfa a rhoddodd crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf i'r cyfarfod.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 3 Awst 2017.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 28 Medi 2017.**